



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol: Cynrychiolaethau

Cyfrol 4: 9622 rhan 2

9. Aberhonddu Maesyfed Dinefwr/ Brecon Maesyfed Dinefwr 73,156

**Rhesymau**

Mae'r etholaeth bresennol y tu allan i'r amrediad etholiadol ac felly mae angen ychwanegu ati. Y ffin fwyaf naturiol i'w haddasu yw'r un o fewn Powys, h.y. y ffin ogleddol. Wedyn, daw hyn yn fater o gydbwyso rhwng y ddwy etholaeth. Y ffiniau eraill y gellir eu haddasu i ategu'r etholaeth hon yw naill ai'r un ddeheuol neu'r un orllewinol. Mae'r ffin ddeheuol yn ymestyn i Dde Cymru. Dyma ranbarth a ffordd o fyw wahanol iawn. Mae'r ffin orllewinol yn ymestyn i'r de orllewin. Caiff Canolbarth

Cymru a'r de orllewin eu gosod gyda'i gilydd yn aml, yn fwy na dim oherwydd bod y bobl yn debycach. Hefyd, maent yn debyg iawn o ran galwedigaeth. Mae ganddynt hanes ac etifeddiaeth sy'n gyffredin iddynt.


Ar ben hynny, mae'r dirwedd yr un peth, fwy neu lai. Mae priffordd yr A40 yn gyswllt rhagorol rhwng Aberhonddu a Llanymddyfri, a'r Tywi. Ar ôl Powys, dyma'r ardal fwyaf naturiol i'w hychwanegu at yr etholaeth bresennol. Felly, mae'r ddwy ffin yn y gogledd a'r gorllewin yn fwyaf priodol ac addas ar gyfer addasiadau i ychwanegu at yr etholaeth bresennol. Gwnaed hyn yma er mwyn dod â'r etholaeth hon yng Nghanolbarth Cymru o fewn yr amrediad etholiadol sy'n ofynnol yn ôl statud.

Enw

At yr enwau presennol, dylid ychwanegu'r enw Dinefwr o leiaf (sef y rhan honno o sir Gaerfyrddin) at yr etholaeth. Gyda'r duedd i ddefnyddio enwau Cymraeg, gellir gwneud hyn gan ddefnyddio Maesyfed. Felly rhoddir yr enw Aberhonddu/ Brecon a Maesyfed. Byddai hyd yn oed pobl mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn gwybod lleoliad yr etholaeth hon o'r enw Aberhonddu/ Brecon. Byddent yn edrych o dan B i ddarganfod unrhyw beth y byddent yn dymuno ei wybod am yr etholaeth a byddent yn dod o hyd i wybodaeth yn hawdd iawn.

Efallai y bydd rhai yn holi am ail-addasu'r ffin ogleddol. Fel y soniwyd, mae'n gydbwysedd rhwng y ddwy etholaeth. Mae hyn yn ymddangos yn addasiad teg. Gellir dadlau ynghylch y ffin wirioneddol bresennol rhwng gogledd a de Powys. Yn sicr, nid dyma ffin ogleddol na ffin ddeheuol yr hen Faesyfed. Mae rhywle yn y canol. Ond ble yn union? Enw posibl arall ar yr etholaeth hon yw Powys Wenwynwyn Dinefwr. Pan oedd Powys yn deyrnas ac wedi'i rhannu'n ddwy, y gogledd a'r de. Rhoddwyd yr enw Wenwynwyn i'r rhan ddeheuol. Hynny yw, Powys Wenwynwyn oedd yr enw ar dde Powys. Felly, yr enw ar gyfer yr etholaeth – Powys Wenwynwyn Dinefwr. Powys yw'r Awdurdod Lleol, a byddai'r rhan fwyaf o bobl ledled y DU yn gwybod lleoliad yr ardal ac mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth amdani. Dywedir mwy am Powys yn nes ymlaen – gweler isod, tudalen 36.

10. Ceredigion Preseli 72,228


**Rhesymau**

Mae ymestyn Ceredigion ar hyd Bae Ceredigion yn gwneud synnwyr, fel bod yr etholaeth yn dod o fewn yr amrediad etholiadol statudol. Y cyfan sydd angen ei wneud yw ymestyn yr etholaeth hyd at Fynydd Preseli. Mae Maenclochog yn gysylltiedig iawn â Mynydd Preseli ac ardal Preseli ac felly mae'r ward wedi'i chynnwys. Mae'r etholaeth yn ymestyn hyd at Abergwaun. Nid oes angen mwy. Mae'n briodol y dylai ardaloedd y tu hwnt i Abergwaun aros yn Sir Benfro lle maent yn perthyn. Nid oes angen yr ardaloedd hyn er mwyn bodloni'r amrediad etholiadol. Nid ydynt yn rhan o Breseli ychwaith.

Enw

Mae'r enw yn cyfuno'r ddwy ardal sydd yn yr etholaeth.

11. Sir Benfro/ Pembrokeshire 76,862


Rheswm

Mae Sir Benfro yn ffurfio uned naturiol, ond mae y tu hwnt i'r amrediad etholiadol. Felly, mae'n rhaid hepgor rhan o'r sir. Mae angen rhai niferoedd ar etholaethau eraill er mwyn bodloni'r amrediad etholiadol – Ceredigion Preseli (gweler 10 uchod) a Chaerfyrddin (gweler 12 isod). Dim ond y niferoedd angenrheidiol sydd wedi'u hepgor, gan roi'r etholaeth fel y'i dangosir ac y'i disgrifir uchod (wardiau).

Enw

Er nad yw rhywfaint o ran ddwyreiniol y sir wedi'i gynnwys, mae'r etholaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ardal Awdurdod Lleol. Mae rhoi mwy o ddisgrifiad iddi yn ymddangos yn ddiangen. Felly, rhoddir enw'r sir. Mae enw Cymraeg ac enw Saesneg ar y sir. Gan mai'r nod yw cael un enw ar gyfer etholaeth, un ffurf, sef enw Cymraeg. Yna pe byddem yn defnyddio enw'r dref sirol, gall hynny roi un ffurf. Yr enw Cymraeg yw Penfro. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn sylweddoli ei fod yn cyfeirio at 'Pembroke'. Gallai Penfro fod yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

12. Caerfyrddin 76,862


**Rheswm**

Awdurdod Lleol/ sir yr ardal; nid yw ardaloedd Llanelli a Dinefwr yn bresennol.

Enw

Mae'r enw Cymraeg bellach wedi dod yn adnabyddus ac yn dderbyniol i'w ddefnyddio yn gyffredinol. Fe'i defnyddir yn y ddwy iaith, ac mae hyn yn galluogi defnyddio un ffurf yn unig. Felly, fel y dref a'r sir, Caerfyrddin yw'r enw ar yr etholaeth hon.

13. Llanelli Llŵchwr 74,020

**Rheswm/ Rhesymau**

Mae'r etholaeth hon yn cynnwys tref Llanelli a Dyffryn Llŵchwr (Loughor). Noder y cyfeirir at y dyffryn ac nid at dref Casllŵchwr. Mae cysylltiad da rhwng tref Llanelli a


thref Casllwchwr. Maent ychydig bellter oddi wrth ei gilydd ac wedi'u cysylltu gan ffordd yr A484.

Mae Llanelli yn llawer agosach at y trefi hyn (Casllwchwr a Gorseinon) na thref Caerfyrddin. Rhennir Dyffryn Lluchwr gan Dycroes a Hendy ar ochr sir Gaerfyrddin, a Phenyrheol ar ochr Dinas Abertawe. Mae llawer yn gyffredin rhwng trefi'r aber a Llanelli. Yn wir, mae "diwylliant" Llanelli yn llawer agosach at y trefi aber hyn na thref Caerfyrddin a sir Gaerfyrddin. Ac yn wir, mae'r trefi aber hyn yn agosach at Lanelli na gweddill Abertawe. Mae Llanelli a Lluchwr yn mynd yn dda gyda'i gilydd – gan greu undod – dyma etholaeth dda.

Enw

Prif dref yr ardal hon yw Llanelli. Y nodwedd bwysicaf nesaf yw Dyffryn Lluchwr. Felly, mae'r ddau enw hyn yn enw'r etholaeth. Gyda'r symudiad tuag at enwau lleoedd Cymraeg ac ati, defnyddir y ffurf Gymraeg. Mae Llanelli yr un peth yn y ddwy iaith. Ni ddefnyddir y gair 'Dyffryn', yn dilyn y traddodiad â'r Cymoedd. Ni ddefnyddiwyd yr enw Cwm Rhondda. Rhondda fu'r enw erioed, a dyna'r enw presennol. Felly, ni ddefnyddir 'Dyffryn'. Enw'r etholaeth yw Llanelli Lluchwr. Mae ganddo un ffurf. Ni ddefnyddir cysylltair. Ond os defnyddir cysylltair, ampersand (&) fyddai orau. Yr un peth yn y ddwy iaith.

13. Abertawe – Gŵyr/ Swansea – Gower 76,232




Rheswm

Dyma greu etholaeth gryno a chydlynus. Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o ran ddeheuol Dinas Abertawe, a'r holl ardal i'r de orllewin ohoni.

Enw

Dwy nodwedd fwyaf blaenllaw'r ddaearyddiaeth ffisegol yma yw'r Mwmbwls a Gŵyr. Gellid defnyddio'r naill neu'r llall ar gyfer yr enw. Mae un o'r enwau wedi'i ddefnyddio eisoes ar gyfer enw etholaeth.

14. Abertawe – Port Tennant/ Swansea – Port Tennant 74,715



Rheswm

Dyma ran agos a chryno iawn o'r ddinas. Mae'n ffurfio etholaeth yn naturiol. Mae'n debyg iawn i etholaethau blaenorol yn yr ardal hon.

Enw

Dyma'r enw ar ran fawr o'r etholaeth. Mae'n gysylltiedig â'r dociau, a'r gamlas sy'n mynd drwy'r holl etholaeth.

16. Castell-nedd (&) Tawe Uchaf/ Neath (&) Upper Swansea 69,920




Rheswm

Mae gan etholaeth Castell-nedd hanes hir yn seiliedig ar hen fwrdeistref Castell-nedd. Mae gan ran ogledd-orllewinol yr Awdurdod Lleol presennol gysylltiadau â'r rhan honno o Abertawe (yn ffisegol ac yn ddiwylliannol). Ar ôl rhannau eraill o'r Awdurdod Lleol presennol, mae gan yr ardal hon gysylltiadau a'r hanes agosaf ag ardal Tawe Uchaf. Felly, ychwanegir ardal Tawe Uchaf at Gastell-nedd. Nid yw'r ardal hon o Abertawe yn cyd-fynd yn naturiol ag ardaloedd neu etholaethau eraill Abertawe. Efallai mai dyma'r cysylltiad mwyaf priodol ar gyfer Tawe Uchaf.

Enw

Mae'r enw yn cynnwys y ddwy ardal sy'n ffurfio'r etholaeth. Daw Castell-nedd yn gyntaf oherwydd dyma'r rhan sy'n cyfrannu'r nifer fwyaf o etholwyr.

17. Port Talbot (&) Maesteg 72, 023



Rheswm

Roedd Port Talbot yn fwrdeistref yn ei hun yn y gorffennol, ac mae bellach yn 'hanner' bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, ac mae gan yr ardal hanes hir o fod â'i hetholaeth ei hun. Mae pobl yn uniaethu â'r ardal, ac oherwydd ei hanes diwydiannol, mae'n adnabyddus ledled y DU ac yn enwog yn y rhan fwyaf o'r byd. Mewn gwirionedd, dylai fod ag etholaeth ei hun. Mae ychwanegu at yr ardal mewn dau fan yn bodloni'r amrediad etholiadol, a ffurfir yr etholaeth fel yr amlinellir uchod.

Enw

Enwir yr etholaeth hon ar ôl yr hen fwrdeistref ac Awdurdod Lleol presennol Castell-nedd Port Talbot. Enwir yr etholaeth ar ôl y ddwy brif ardal a'r trefi sy'n ffurfio'r etholaeth. Gall yr enw gynnwys ampersand (&) neu beidio. Dull cyffredin bellach yw



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru